YSGOL PENRHYN-COCH

Daeth tymor arall bron i ben a sŵn a naws y Nadolig yn llanw'r lle yn awr. Mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Naw Llith a Charol a gynhelir Nos Iau, y 15ed o'r mis yma. Ar y dydd olaf o'r tymor ffarweliwn â dwy aelod o'r staff. Y mae Miss Margaret Davies, athrawes y babanod, wedi derbyn swydd yn ysgol Llanbedr Pont Steffan. Trist gennym ei cholli ond sylweddolwn y bydd o hyn allan yn llawer nes i'w chartref yng Ngors-goch. Diolchwn iddi am ei ffyddlondeb a'i theyrngarwch. Gweithiodd yn ddiwyd yn yr ysgol a rhoddodd o'i gorau i Adran yr Urdd. Y mae Mrs Valerie Jones a fu'n gofalu ar ôl y plant ganol dydd yn gorffen ar ei gwaith gyda ni hefyd. Bu Mrs Jones, hithau'n weithgar a chydwybodol yn ystod y blynyddoedd y bu yma, a dymunwn y gorau iddi i'r dyfodol. Yr wythnos o'r blaen cawsom gwmni'r Dr Robert Owen o'r Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Bu'r Dr Owen yn siarad â ni am anifeiliaid Oes y Rhew. Dangosodd nifer o luniau diddorol a chawsom bleser o'r mwyaf yn gwrando arno. Y diwrnod canlynol aeth nifer ohonom i Aberystwyth i gael gweld yr Arddangosfa o hen bethau a drefnwyd gan yr Amgueddfa Genedlaethol.